# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 10fed o CHWEFROR 2026 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cadeirydd), Harry Owen, Gareth Jones (Talysarn), Judith Humphreys, Justin Davies, Celfyn Roberts, Barry Bracegirdle, Ceri Owen (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn (Llanllyfni), Dafydd Thomas (Nebo), Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Nigel Williams (Talysarn), Erfyl Williams (Penygroes), David Jones (Nantlle).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes.

2. **Datgan buddiant** – Siân Dafydd – pwynt 11 – Ceisiadau Cynllunio.

3. **Cofnodion cyfarfod 13eg o Ionawr 2026** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **Cofeb i OP Huws** - bu i rai aelodau o'r cyngor fynychu cyfarfod gyda Phwyllgor Antur Nantlle i drafod hyn. Esboniwyd bod opsiynau wedi eu trafod ond eu bod angen amser i drafod y rhain ymhellach.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Adroddwyd bod yr hen barc sglefrio bellach wedi ei darmacio ac maent yn agored am unrhyw syniadau o beth i'w roi yno. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith.

6. **Cyfarfod is-bwyllgor i drafod ceisiadau cyfraniadau ariannol** - cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar y 5ed o Chwefror ble trafodwyd y 22 cais a oedd wedi eu derbyn. Adroddwyd bod £3000 ar gael i'w rannu. Aethpwyd drwy'r ceisiadau ac ar ôl trafod penderfynwyd rhannu'r arian rhwng 20 ohonynt. Rhai yn cael £200, eraill £150 ac eraill £100. Rhai o'r rhai a fydd yn derbyn cyfraniadau fydd Cyfeillion Ysgolion Llanllyfni, Talysarn a Bro Lleu, Seindorf Arian Dyffryn Nantlle, Clwb Pêl-rwyd Silyn, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle, Eisteddfod Llanllyfni, Urdd Gobaith Cymru, Ambiwlans Awyr ac eraill.

7. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. Adroddwyd na fydd angen talu am y clwb ieuenctid eleni a chynigwyd os oes posib eu holi am wybodaeth ynglŷn â chynnal noson ychwanegol. Eiliwyd hyn a gofyn i'r clerc gysylltu â nhw i holi. Cynigwyd y dylid meddwl am gynnal is-bwyllgor cyllid ddechrau Ebrill i drafod cyllid 2026/27. Cytunwyd i drafod dyddiad yng nghyfarfod mis Mawrth. Adroddwyd bod ADRA wedi cytuno i osod camerâu cylch cyfyng ar ei adeilad wrth y safle bws ym Mhenygroes. Buasai'r costau oddeutu £1200 i'w setio fyny ac yna £100 y flwyddyn i'w rhedeg. Angen cysylltu ag ADRA am ragor o wybodaeth am hyn.

8. **Materion Pentrefi** - **Llanllyfni -** e-bost wedi ei dderbyn ynglŷn â'r parcio anghyfreithlon yn Llanllyfni ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned lythyru trigolion y pentref am hyn. Trafodwyd a'r teimlad yw nad lle'r cyngor cymuned ydi gwneud hyn. Cynigwyd y dylid gofyn i'r heddlu os oes gennynt bŵer i wneud unrhyw beth yna iddynt wneud hyn. Adroddwyd bod coed wedi disgyn ar y llwybr i'r chwarel ar lôn Tyddyn Agnes. Twll ar lôn Talgarnedd - y clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn. **Penygroes -** cais wedi dod gan Ysgol Bro Lleu yn gofyn a oedd yna aelod o'r cyngor a fuasai â diddordeb mewn bod ar fwrdd llywodraethu'r ysgol. Os diddordeb gyda rhywun yna iddynt gysylltu â'r ysgol. Adroddwyd bod pryderon wedi eu codi ynglŷn â diogelwch plant sy'n cerdded i ag o ysgol Bro Lleu a Dyffryn Nantlle. Cynigwyd ac eiliwyd i'r clerc gysylltu â swyddog Cyngor Gwynedd am hyn a gofyn a fysa na bosib ymchwilio i'r sefyllfa a hefyd gofyn a oes modd iddynt ail-ystyried cyflogi person lolipop. Hefyd cwynion a phryderon ei bod yn beryglus croesi'r ffordd wrth ymyl y Co-op. Pryder ynglŷn â mortar wedi dod yn rhydd o gwmpas manhole ger 60 Trem Yr Wyddfa sydd yn beryglus. Adroddwyd bod cynnig wedi dod i aelodau'r cyngor cymuned fynd i ymweld â'r stad tai newydd ym Mhenygroes - gofyn i Ceri Owen gysylltu â'r clerc er mwyn gadael i bawb wybod pryd fydd hyn yn digwydd. **Nebo** - Twll yn y ffordd rhwng Penchwarel a Ffordd Nebo angen sylw. Angen dilyn fyny ar gael bin sbwriel wedi ei osod yn Nasareth. Adroddwyd bod Pwyllgor Ardal Nebo yn barod i gychwyn ar y gwaith sydd i'w wneud ar y blwch ffôn. Hefyd y Pwyllgor Ardal yn disgwyl am ymateb gan Gyngor Gwynedd i gael gosod cofeb er cof am OP

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

Huws ar dir tu cefn i'r gof golofn yn Nebo. **Talysarn -** cwynion bod baw ci o flaen y fynedfa i'r gloddfa glai. Angen dilyn fyny i gael diweddariad ynglŷn â'r llinellau melyn yng nghwaelod Lôn Yr Eglwys.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - angen dilyn fyny ar bryd fydd y llechen yn cael ei gosod nôl ar do'r cwt yng Ngorffwysfa. **Estyniad Mynwent Gorffwysfa -** y clerc wedi rhannu e-bost yr oedd wedi ei dderbyn gan ICCM hefo pawb er mwyn iddynt edrych drosto - dim yn ei weld yn rhoi llawer o gymorth. Cynigwyd y dylid gofyn am gymorth cyfreithiol ar sut i symud ymlaen. Cynigwyd y dylid holi Cyngor Gwynedd am gyngor. Eiliwyd y cynnig i holi'r cyngor i ddechrau.

10. **Polisïau i'w pasio** - cynigwyd y dylid cynnal is-bwyllgor i drafod y polisïau hyn ac efallai ei gynnal yr un noson a'r is-bwyllgor cyllid.

11. **Ceisiadau Cynllunio** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth hon. Trafodwyd y ddau gais a oedd wedi eu derbyn ac nid oedd dim gwrthwynebiad iddynt.

- Bryn Llys Mawr, Ffordd Cors Y Llyn Nebo – Adeiladu sied amaethyddol
- Capel Calfaria, Penygroes - Creu maes parcio newydd ar gyfer pedwar car ar safle cyn gardd sy'n eiddo i'r capel.

12. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis ac aethpwyd drwyddynt a rhoi cyfle i unrhyw un godi unrhyw beth.

- Cyngor Gwynedd – cyfyngiadau parcio arfaethedig Ffordd Y Sir, Penygroes – gyrru sylw fod y cyngor cymuned yn gefnogol o hyn.

13. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.

- Nia Jones - ffôn a gwe = **£25.00**
- Designer Signs – am drwsio safle bws Penygroes = **£1060.80**

14. **Unrhyw fater arall** - adroddodd Dafydd Thomas, Nebo y bydd yn symud o'r ardal yn y dyfodol agos a fydd yn golygu na fydd yn medru bod ar y cyngor wedi hyn ac y bydd angen aelod newydd dros ward Nebo ar y cyngor cymuned bryd hynny.

15. **Tir Cwtin** - bu i Judith Humphreys a Justin Davies adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth yma. **Cais Adra -** Adroddwyd bod cais wedi dod gan ADRA i gael defnyddio tir Cwtin ar gyfer cynnal cwrs cynnal a chadw tiroedd academi ADRA - Cytunwyd yn unfrydol y dylai hyn ddigwydd a gofynnwyd i'r clerc adael i Bwyllgor CBC wybod am hyn. **Materion les Tir Cwtin -** Yn dilyn derbyn e-bost gan ein cyfreithwyr ynglŷn â materion yn ymwneud a'r les - trafodwyd y mater a bydd y clerc yn ymateb i'r e-bost.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 10fed o Fawrth 2026 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________